
OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2021 Rhif 1431 (Cy. 370)

ADDYSG, CYMRU

**Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a
Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2021**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014 (O.S. 2014/1132 (Cy. 111)).

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu, ar gyfer ffederasiynau sy'n cynnwys dwy ysgol yn unig, y caniateir i berson gael ei ethol yn athro-lywodraethwr neu'n staff-lywodraethwr er ei fod yn gweithio yn yr un ysgol ffederal ag athro-lywodraethwr neu staff-lywodraethwr blaenorol a wasanaethodd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2021 Rhif 1431 (Cy. 370)

ADDYSG, CYMRU

**Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a
Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2021**

Gwnaed *12 Rhagfyr 2021*

Gosodwyd *gerbron* *Senedd*
Cymru *15 Rhagfyr 2021*

Yn dod i rym *4 Chwefror 2022*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 19(3) a (9) a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002(1), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(2), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 4 Chwefror 2022.

**Diwygiadau i Reoliadau Ffedereiddio Ysgolion a
Gynhelir (Cymru) 2014**

2.—(1) Mae Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014(3) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 15 (athro-lywodraethwyr), ym mharagraff (4)—

-
- (1) 2002 p. 32. Mewnosodwyd adran 19(9) gan adran 19(1) a (2)(b) o Fesur Addysg (Cymru) 2011 (mccc 7). Diwygiwyd adran 210(7) gan adran 21(1) a (3)(c) o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (mccc 2). Gweler adran 212(1) am y diffiniad o "regulations".
- (2) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).
- (3) O.S. 2014/1132 (Cy. 111), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(a) daw'r geiriau o "unrhyw berson" hyd at y diwedd yn is-baragraff (a), a

(b) ar ôl yr is-baragraff hwnnw mewnosoder—
“; neu

(b) ffederasiwn sy'n cynnwys dwy ysgol yn unig.”

(3) Yn rheoliad 16 (staff-lywodraethwyr), ym mharagraff (4)—

(a) daw'r geiriau o "unrhyw berson" hyd at y diwedd yn is-baragraff (a), a

(b) ar ôl yr is-baragraff hwnnw mewnosoder—
“; neu

(b) ffederasiwn sy'n cynnwys dwy ysgol yn unig.”

Jeremy Miles

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion
Cymru

12 Rhagfyr 2021